




Gwefrwch eich Ffôn Symudol yn Ddiogel

Prynwch wefrydd dilys bob tro



Ystyrir bod ffonau symudol yn hanfodol y dyddiau hyn. Ond ydych chi'n ymwybodol o'r peryglon sydd ynghylch gwefryddion ffôn symudol ffug?

Prynir gwerth £1.8 miliwn o wefryddion ar-lein bob blwyddyn yn y DU gan berchnogion ffonau symudol sy'n chwilio am fargen. Er yn aml mae'n rhatach prynu rhai a fewnforiwyd - gwefryddion answyddogol - gall y gost fod yn fwy yn yr hirdymor.

Yn aml, gwnaed gwefryddion ffôn symudol ffug â chydannau o ansawdd isel sy'n methu cwrdd â rheoliadau diogelwch y DU. Golyga hyn y gallant achosi anaf, siociau trydanol a hyd yn oed tanau.

Pa fath o wefrydd ffôn symudol sydd gennych chi? Darganfyddwch fwy ynghylch pwysigrwydd defnyddio gwefrydd ffôn symudol iPhone, Samsung, HTC, LG neu Sony a gynhyrchwyd gan werthwr cydnabyddedig.

Apple iPhone

Gwerthwyd dros 500 miliwn o ffonau iPhone cwmni Apple ledled y byd, o'r iPhone 3G cynnar i'r genhedlaeth ddiweddaraf.

Adnabyddir Apple am ei dechnoleg ardderchog, ac mae nifer o aelwydydd yn berchen ar gynnyrch Apple - sy'n golygu efallai bydd angen mwy nag un gwefrydd arnoch i'w gwefru nhw i gyd.

Y ffordd orau i fod yn siŵr na werthwyd gwefrydd ffug i chi yw prynu o un o'r niferus siopau Apple a ganfyddir ar strydoedd mawr y DU neu gan werthwr cydnabyddedig arall.

SAMSUNG

Mae'r cewri technolegol Samsung yn cynhyrchu popeth o setiau teledu i gemegolion.

Dros y blynyddoedd, maent wedi rhyddhau cannoedd o wahanol ffonau symudol Samsung, gan gynnwys y Galaxy poblogaidd.

Pan ddaw at wefru eich ffôn, dylech wastad prynu gwefrydd dilys Samsung neu brynu un gan fanwerthwr cydnabyddedig, dibynadwy.

htc

Efallai mai HTC yw un o'r brandiau newydd ar y farchnad, ond yn gyflym, daethant yn un o'r gwneuthurwr mwyaf blaenllaw o dabledi a ffonau symudol.

P'un ai ydych chi'n berchen ar HTC One, HTC Desire neu un arall o'r ffonau clyfar eraill yn y gyfres, dylech wastad defnyddio gwefrydd rydych chi'n gwybod sydd wedi pasio'r gwiriadau diogelwch angenrheidiol.



Yn llawn o'r dechnoleg fwyaf diweddar, daeth ffonau clyfar LG yn arbennig o boblogaidd dros yr ychydig flynyddoedd diweddar, diolch i'w sgriniau mawr ansawdd uchel.

I amddiffyn eich ffôn rhag difrod (a'ch hun rhag profi sioc gas), mae'n bwysig defnyddio naill ai gwefrydd brand LG neu un a adeiladwyd gan fanwerthwr cydnabyddedig arall.

SONY

Sony yw'r brand dibynadwy dewisol i lawer - p'un ai os ydych chi'n son am glustffonau, setiau teledu, camerâu neu ffonau symudol.

Ond oeddech chi'n gwybod pa mor beryglus gall gwefryddion ffug fod? Nid yn unig gallant achosi difrod i'ch ffôn clyfar Sony, ond hefyd, mae modd iddynt achosi siociau a hyd yn oed tanau.

Gwiriwch i ddarganfod sut i adnabod gwefrydd ffôn symudol anaddas. bit.ly/suitablecharger

